Adroddiad i'r	**Cyngor Sir**
Dyddiad y cyfarfod	**28 Ionawr 2020**
Aelod Arweiniol:	**Y Cynghorydd Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd**
Yn cyflwyno'r adroddiad.	**Y Cynghorydd Huw Ll Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Perfformiad.**
Awdur yr adroddiad	**Heidi Barton-Price – Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad** **ar ran Grŵp Tasg a Gorffen "Defnydd o Blastig" yr Aelodau (Cadeirydd, y Cynghorydd Emrys Wynne)**
Teitl	**Osgoi a Lleihau Plastig yn Swyddfeydd Cyngor Sir Ddinbych**

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

I ystyried yr argymhellion a'r cynllun gweithredu cysylltiedig (Atodiad 1) ar sut y gall y Cyngor leihau ei ddefnydd o blastig o ganlyniad i waith Grŵp Tasg a Gorffen "Defnydd o Blastig" yr Aelodau. Cafodd yr argymhellion a'r cynllun gweithredu eu cefnogi gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad yn eu cyfarfod ar 28 Tachwedd 2019.

Mae'r adroddiad yn ystyried sut y gall y Cyngor leihau ei ddefnydd o blastig. Nid yw'n ystyried sut y gall preswylwyr neu gymunedau o fewn y Sir leihau eu defnydd o blastig.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Yn y Cyngor yng Ngorffennaf 2018, o ganlyniad i Rybudd o Gynnig, penderfynwyd cefnogi'r egwyddor y dylai'r Cyngor leihau ei ddefnydd o blastig a bod Grŵp Tasg a Gorffen yn ystyried y materion, adrodd i'r Pwyllgor Craffu cyn adrodd yn ôl i'r Cyngor.

Mae gofyn i'r Cyngor nawr ystyried gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen fel y caiff ei gefnogi gan y Pwyllgor Craffu.

3. Beth yw’r Argymhellion?

Fod y Cyngor yn ystyried casgliadau’r Grŵp Tasg a Gorffen fel y caiff ei gefnogi gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad:

3.1 yn cymeradwyo’r argymhellion a’r Cynllun Gweithredu (Atodiad 1) er mwyn dangos fod y Cyngor yn arwain y gymuned o ran lleihau'r defnydd o blastig;

3.2 yn cefnogi parhad y Grŵp Tasg a Gorffen am 12 mis arall gyda bwriad o gynnig camau gweithredu pellach i leihau defnydd y Cyngor o blastig ym meysydd: (i) Arlwyo Ysgol a (ii) chaffael

3.3 yn cefnogi’r cynnig fod osgoi a lleihau plastig o fewn y Cyngor yn dod yn ffrwd waith sy’n gysylltiedig â’r ymateb ehangach i’r Newid yn yr Hinsawdd a’r Argyfwng Ecolegol.

4. Manylion yr Adroddiad

Mae’r Cynllun Gweithredu (Atodiad 1) yn amlinellu’r camau gweithredu yr oedd y Grŵp Tasg a Gorffen yn eu hystyried yn “ymateb cyntaf” rhesymol i'r lleihad yn nefnydd y Cyngor o blastig. Yn wreiddiol roedd y Grŵp yn awyddus i fynd ymhellach, ond sylweddolwyd beth oedd maint a chymhlethdodau’r pwnc. Mae angen gwaith manwl ym mhob un o’r meysydd penodol yn ymwneud â lleihau plastig i ddeall y goblygiadau’n llawn o ran cost, perfformiad, darparu gwasanaeth ayb h.y. nid yw pob plastig yn “ddrwg” a gall lleihau plastig gael canlyniadau anfwriadol.

Ar ôl gwneud yr argymhellion yn Atodiad 1, mae’r Grŵp Tasg a Gorffen hefyd yn argymell eu bod yn parhau a’u gwaith yn edrych ar fanylion yn ymwneud â lleihau plastig o ran arlwyo ysgolion ac yn ehangach drwy’r defnydd o'n prosesau caffael.

Mae’r Aelod Arweiniol Craffu Perfformiad yn cefnogi’r ymagwedd a fabwysiadwyd gan y Grŵp Tasg a Gorffen.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd y penderfyniad yn cyfrannu tuag at y flaenoriaeth Amgylcheddol a gynhwysir o fewn y Cynllun Corfforaethol 2017–2022.

6. Beth fydd cost hyn a beth fydd ei effaith ar wasanaethau eraill?

Nid oes yna oblygiadau ariannol sylweddol na goblygiadau o ran Gwasanaethau o ganlyniad i'r argymhellion.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Mae'r prosiect hwn i ddatblygu opsiynau i osgoi a lleihau plastig a ddefnyddir gan y cyngor yn ei swyddfeydd yn dangos ymagwedd gynaliadwy o ran yr amgylchedd ac yn cyfrannu'n gadarnhaol yn gyffredinol i'r nodau lles (Atodiad 2).

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Craffu ac eraill?

Wrth ddatblygu eu hymateb i'r Rhybudd o Gynnig gwreiddiol, mae'r Grŵp Tasg a Gorffen wedi ymgysylltu gyda'u grwpiau gwleidyddol. Ymgynghorwyd â'r Aelod Arweiniol a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac roeddent yn cefnogi'r argymhellion.

Mae'r argymhellion a gynigir wedi bod yn agored i sylwadau drwy borth ymgysylltu 'Sgwrs y Sir' y Cyngor – derbyniwyd 15 sylw i gyd a'r prif fater oedd symud peiriannau oeri dŵr (e.e. yn ymwneud â chadw peiriannau ac ailddefnyddio poteli). Mynychodd Rheolwr y Prosiect Gyngor y Staff.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes unrhyw gynigion ariannol ynghlwm â'r adroddiad hwn. Tra cydnabyddir y gallai arbedion effeithlonrwydd amgylcheddol ac ariannol gael eu gwireddu o gefnogi'r argymhellion hyn, pwrpas yr adroddiad yw i osgoi a lleihau'r defnydd o blastig yn swyddfeydd y Cyngor.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Nid oes yna unrhyw risgiau arwyddocaol o ganlyniad i'r argymhellion.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae pwerau'r Pwyllgor Craffu mewn perthynas â Datblygu ac Adolygu Polisi wedi'u hamlinellu yn Adran 7.4.1 o Gyfansoddiad y Cyngor, tra bod Adran 7.2.2 o'r Cyfansoddiad yn amodi y gall y Pwyllgor Craffu "wneud adroddiadau neu argymhellion i'r Cyngor neu'r Cabinet mewn cysylltiad â rhyddhau unrhyw swyddogaethau".